

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 2020

Enw'r Elusen: Cymdethas Côr Meibion Caerfyrddin

Rhif cofrestredig: 259482

Cyfeiriad: Cyfeiriad yr Ysgrifennydd (Tŷ Hir, Picton Court, Caerfyrddin SA31 3DQ)

Ymddiriedolwyr:

Dai Lewis (Cadeirydd)

Kevin Thomas (Is- Gadeirydd)

Ieuan Phillips (Trysorydd)

Huw Michael (Ysgrifennydd)

Dogfen Rheolaeth: Y Cyfansoddiad a fabwysiadwyd ar 22/08/2017

Amcanion:

Amcanion y Côr yw hyrwyddo'r ymwybyddiaeth am ganu corawl ymhlith y cyhoedd, a dysgu a pherfformio darnau corawl yn gyhoeddus, tra'n cynorthwyo achosion elusennol.

Gweithgareddau a Chyflawniadau 2020

Yn anffodus, yn dilyn y cyfyngiadau o ganlyniad i'r feirws Covid-19, fe oedwyd gweithgareddau'r côr yng nghanol mis Mawrth 2020, a hyd yma (diwedd 2020) 'dyn ni ddim wedi gallu cwrdd i gael yr ymarferion wythnosol. Yn siomedig, roedd hyn yn golygu bod rhaid canslo y daith hir-ddisgwyliedig dros 5 diwrnod i Wlad Belg ym mis Mehefin, gyda'r holl flaendaliadau yn cael eu had-dalu yn llawn i'r aelodau. Rydym yn mawr obeithio y byddwn yn gallu ail-ddechrau gweithgareddau ar ôl y Pasg 2021.

Rheolaeth

Nid oedd newidiadau i Gyfansoddiad y côr yn ystod 2020

Swyddogion.

Cyhoeddodd Steve Thomas (B2) y byddai'n ymddiswyddo fel Trysorydd ar ddiwedd y flwyddyn 2019 ac yn ymddiswyddo fel aelod. Mae'r côr yn ddiolchgar iawn i Steve am ei wasanaeth clod-wiw fel Trysorydd a'i waith yn cydlynu trefniadau gweinyddol nifer o'n cyngherddau yn ystod y blynyddoedd y buodd e'n aelod. Etholodd y Pwyllgor Ieuan Phillips (B1) fel Trysorydd newydd y côr. Dymunwn yn dda i Ieuan yn ei waith.

Penodwyd Richard Evans (B2) yn Gydlunydd y wefan a'n tudalen Facebook. Diolch i Richard am ymgymryd â'r gwaith pwysig yma.

Aelodaeth

Ni bu newid yn y tâl aelodaeth ar gyfer 2020 (£120 y pen y flwyddyn), ond yn dilyn oediad y gweithgareddau ym mis Mawrth, penderfynwyd gostwng y tâl i ddim ond £30 am 2020.

Yn ogystal ag ymadawiad Steve Thomas (B2), fe dderbynion ni ymddiswyddiad Mike Brown (T1) ym mis Hydref o ganlyniad i afiechyd.

Dechreuodd tri darpar aelod newydd ddod i'r ymarferion wythnosol ym mis Chwefror sef Paul Endicott (T1), Stuart Davies (B1) a Steve Martin (B1).

Nifer aelodau'r côr ar ddiwedd 2020 yw 35, gan gynnwys y tri darpar aelod newydd.

Presenoldeb

Roedd y presenoldeb yn yr Ysgol Gân wythnosol yn weddol gyson rhwng 20 a 27 o aelodau, gyda 23 ar gyfartaledd hyd at ac yn cynnwys 10fed o Fawrth.

Cyngherddau

Yr unig gyngerdd oedd yr un yn Nhafarn Cwrw yn Stryd y Brenin ar y 29ain o Chwefror yn ei Noson Cawl a Chan. Cafwyd noson hwylus iawn gyda canu cynulleidfaol yn ogystal â pherfformiad y cor ar y llwyfan. Diolch i Wyn am baratoi taflenni caneuon a gyfrannodd at lwyddiant y canu cynulleidfaol.

Perfformiadau Eraill

Doedd dim perfformiadau eraill cyn oediad y gweithgareddau yng nghanol mis Mawrth.

Priodasau

Dim un.

Angladd

Dim un.

Elusennau

Gan fod ochr ariannol y côr yn iach, penderfynodd y Pwyllgor yn 4Q19 i barhau i gyfrannu at elusennau lleol ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Dyma'r elusennau a gefnogwyd eleni:

2Q - Ambiwylans Awyr Cymru - £250

4Q - Canolfan Dementia Caerfyrddin (trwy law Crossroads Sir Gar) - £250

Cymdeithasol

Dim digwyddiad heblaw am y Noson Cawl a Chân ar y 29ain o Chwefror

Pwyllgor y Gwragedd

Dymuna'r Côr ddiolch i Bwyllgor y Gwragedd am eu cefnogaeth parhaol, yn enwedig am eu gofal dros wisg y côr.

Repertoire

Dechreuwyd dysgu darnau newydd i repertoire y côr yn 2020: World in Union; Rock a My Soul; Kwmbayah. Mae'r rhain yn rhan o rhaglen CCMC ar gyfer cyngerdd Neuadd Albert oedd i fod i'w gynnal yn 2021, ond sydd bellach wedi ei ohirio i 2023.

Mae rhestr llawn repertoire y côr ar ein gwefan.

Arweinydd a Chyfeilyddes

Dymuna'r Ymddiriedolwyr fynegi eu gwerthfawrogiad am wasanaeth y Parchedig Wyn Maskell a Ms Heather Williams. Mae Wyn wedi symud i fyw i Felinfach yn dilyn ei benodiad fel Ficer Plwyf Ciliau Aeron, ond yn dal i fod yn barod i deithio i Gaerfyrddin i arwain y côr yn wythnosol. Rydyn yn ffodus iawn i'w cael.